

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Noddi Chwaraeon The Sponsorship of Sport

**Q10 Laura Anne Jones:** Would the First Minister make a statement on the sponsorship of sport in Wales? OAQ1251(FM)

**C10 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am noddi chwaraeon yng Nghymru? OAQ1251(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Wales's success in hosting and attracting high-profile events such as the Rugby World Cup, Ryder Cup 2010, the FA Cup final and the Wales Rally GB is helping to generate some £50 million a year in sponsorship. Sportsmatch Cymru is also creating vital links between business and grass-roots sport.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae llwyddiant Cymru o ran croesawu a denu digwyddiadau pwysig fel Cwpan Rygbi'r Byd, Cwpan Ryder 2010, gêm derfynol Cwpan yr FA a Rali Cymru Prydain Fawr yn helpu i greu tua £50 miliwn y flwyddyn mewn nawdd. Mae Sportsmatch Cymru hefyd yn creu cysylltiadau hanfodol rhwng busnesau a chwaraeon ar lawr gwlad.

#### Polisïau Newydd New Policy Development

**Q11 Irene James:** Will the First Minister make a statement on new policy development in Wales? OAQ1233(FM)

**C11 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu polisïau newydd yng Nghymru? OAQ1233(FM)

**The First Minister:** All our policy development is focused around delivering the vision set out in 'Wales: A Better Country'. We are well on the way to delivering this agenda. My annual report, 'Delivering our Promises', sets out our achievements to date. My next report will be published in the summer.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein polisïau i gyd yn canolbwyntio ar gyflawni'r weledigaeth a nodir yn 'Cymru: Gwlad Well'. Yr ydym wedi cymryd camau sylweddol tuag at gyflawni'r agenda hon. Mae fy adroddiad blynyddol, 'Cyflawni ein Haddewidion', yn nodi ein cyflawniadau hyd yma. Cyhoeddir fy adroddiad nesaf yn yr haf.

#### Anweithgarwch Economaidd yn y De-ddwyrain Economic Inactivity in South-east Wales

**Q12 John Griffiths:** Will the First Minister make a statement on economic inactivity in south-east Wales? OAQ1229(FM)

**C12 John Griffiths:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am anweithgarwch economaidd yn y de-ddwyrain? OAQ1229(FM)

**The First Minister:** The rate of economic inactivity in 2004 in south-east Wales, among people of working age, was 25.8 per cent, down from 27.4 per cent in 2001. Through our strategies, including 'Wales: A Vibrant Economy', we are taking forward a range of actions, with key partners, to foster further economic progress within the region.

**Y Prif Weinidog:** Yn 2004, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn y de-ddwyrain ymysg pobl oed gwaith oedd 25.8 y cant, i lawr o 27.4 y cant yn 2001. Drwy ein strategaethau sy'n cynnwys, 'Cymru: Economi yn Ffynnu', yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i feithrin cynnydd economaidd pellach yn y rhanbarth.

### **Ehangu Mynediad i Addysg Uwch Widening Access to Higher Education**

**Q13 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is widening access to higher education? OAQ1255(FM)

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ehangu mynediad i addysg uwch? OAQ1255(FM)

**The First Minister:** Widening access is a key Assembly Government priority. Since 2002-03, we have invested £2 million each year in widening access initiatives throughout Wales. The new student finance arrangements are intended to build on our strong performance in this area to date.

**Y Prif Weinidog:** Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth y Cynulliad. Ers 2002-03, yr ydym wedi buddsoddi £2 miliwn bob blwyddyn mewn mentrau ehangu mynediad drwy Gymru. Bwriad y trefniadau newydd ar gyfer cyllid myfyrwyr yw adeiladu ar ein perfformiad cryf yn y maes hwn hyd yma.

### **Swyddogaeth Ysbytai Cymunedol The Role of Community Hospitals**

**Q14 Mark Isherwood:** Will the First Minister make a statement on the role of community hospitals? OAQ1246(FM)

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am swyddogaeth ysbytai cymunedol? OAQ1246(FM)

**The First Minister:** 'Designed for Life', our 10-year strategy for delivering health services in Wales, identifies the important future role for community hospitals in Wales. Their role will include developments in diagnostic treatments and new models of care ensuring treatment takes place near, or in, the home.

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Cynllun Oes', ein strategaeth 10 mlynedd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau iechyd yng Nghymru, yn nodi rôl bwysig ysbytai cymunedol Cymru yn y dyfodol. Bydd eu rôl yn cynnwys datblygiadau mewn triniaethau diagnostig a dulliau newydd o ofalu gan sicrhau bod cleifion yn derbyn triniaeth yn y cartref neu gerllaw.

### **Effeithiolrwydd y Cynllun Stoc Trig The Effectiveness of the Fallen Stock Scheme**

**Q15 Brynle Williams:** Will the First Minister make a statement on the effectiveness of the fallen stock scheme in Wales? OAQ1244(FM)

**C15 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y cynllun stoc trig yng Nghymru? OAQ1244(FM)

**The First Minister:** Collections within the fallen stock scheme are being carried out on target, and no reports of late collections have

**Y Prif Weinidog:** Mae casgliadau o fewn y cynllun stoc trig yn cael eu gwneud ar amser, ac ni chafwyd unrhyw gofnod o gasgliadau

been lodged. Collectors in Wales have updated their systems and improved collection processes in light of their experience during the first year of operating within the national fallen stock scheme.

hwyr. Mae casglwyr yng Nghymru wedi diweddarau eu systemau a gwella eu prosesau casglu yn wyneb eu profiad yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu o fewn y cynllun stoc trig cenedlaethol.